Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# DATGANIAD POLISI RHEOLI YNNI A CHYNALIADWYEDD

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr, yr Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Bwrdd yr Is-Ganghellor, Deoniaid Cyfadrannau a Phenaethiaid Adrannau Gweithredol wedi'u hymrwymo i wella parhaus ein perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd, fel rhan o'n nod cyffredinol o weithredu egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob maes yn ein sefydliad.

## SGÔP Y POLISI

Fel Prifysgol sy'n anelu i ysbrydoli, addysgu a galluogi llwyddiant, ein nod yw cynnal ein gweithredoedd i adlewyrchu'r arferion amgylcheddol gorau. Rydym ni'n deall fod ein gweithgareddau ni'n cael effaith ar yr amgylchedd ac rydym ni wedi ymrwymo i wella'n perfformiad amgylcheddol yn barhaus, a fydd yn cael ei fonitro trwy ein Gweithgor Gweithredu Cynaliadwyedd. Bydd ein Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn darparu fframwaith strategol i ddylanwadu ar a siapio'r sefydliad i ddatblygu a gweithredu'r arferion gorau o ran perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd.

**Yn benodol, byddwn yn:**

- Cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a gofynion eraill sy'n berthnasol i'r Brifysgol o ran ein helfennau amgylcheddol
- Rheoli ein gweithgareddau i sicrhau eu bod yn effeithiol wrth atal llygredd
- Pennu, cyflawni ac adolygu targedau mesuradwy ar gyfer meini prawf perfformiad allweddol o ran rheoli gwastraff, teithio a chludiant, caffael cynaliadwy, rheoli ynni a charbon, defnydd dŵr, adeiladwaith ac adfywio, allyriadau a gollyngiadau a bioamrywiaeth
- Lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol a achosir gan weithrediadau'r Brifysgol yn cynnwys lleihau gwastraff a defnydd effeithlon ynni ac adnoddau naturiol.
- Ystyried arferion gorau Addysg Uwch o ran pennu targedau ac adrodd amdanynt, yn cynnwys meincnodi perfformiad yn erbyn sefydliadau eraill tebyg.
- Sicrhau fod materion amgylcheddol yn gysylltiedig â gwaith adeiladu yn cael eu hystyried yn ystod datblygu'r dylunio a bod penderfyniadau caffael a chontractau yn cael eu dylanwadu gan arferion amgylcheddol da.
- Gwreiddio'r themâu trawstoriadol datblygu cynaliadwy, rheolaeth amgylcheddol a dinasyddiaeth fyd-eang ar draws y cwricwlwm a gwasanaethau cefnogi'r Brifysgol trwy feithrin ymddygiadau dysgu sy'n ymwybodol o'r amgylchedd.
- Sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod yr holl adeiladau newydd yn bodloni neu'n goresgyn yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol a chodau ymarfer rheoleiddio perthnasol yn y Deyrnas Unedig,
- Ymgysylltu gyda staff a myfyrwyr i gasglu syniadau sut y gallai'r Brifysgol gynorthwyo i ateb heriau datblygu cynaliadwy.
- Gwneud y Datganiad Polisi Rheoli Ynni a Chynaliadwyedd yn gyhoeddus.
- Cyfathrebu'r polisi i'r holl unigolion sy'n gweithio i neu ar ran y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn cymryd y camau angenrheidiol, yn cynnwys mesur perfformiad ac archwilio cydymffurfio, i sicrhau fod y polisi wedi'i ddeall a'i weithredu ar bob lefel.

Llofnod:



Dyddiad: 29 November 2024
Yr Athro Joe Yates
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr

Llofnod:



Dyddiad: 29 November 2024
Dr Leigh Griffin
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr